**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee

SeneddLJC@senedd.wales

05 Medi 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod un Offeryn Statudol (OS): Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023 erbyn 16 Hydref 2023.

Rwyf wedi cael llythyr ar ran y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Benyon, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Felly, gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Mae'r OS hwn yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 a ddargedwir gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) (y "Rheoliad POPs"). Bydd y diwygiad yn ychwanegu asid perfluorohexane sylffonig ("PFHxS"), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS i'r rhestr o sylweddau y gwaherddir eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio o dan y Rheoliad POPs. Mae hefyd yn gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer PFHxS, ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS sy'n digwydd fel halogydd olrhain anfwriadol mewn sylweddau, cymysgeddau ac eitemau.

Diben y Rheoliadau yw gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n cael eu gosod ar y DU drwy newidiadau i Gonfensiwn Stockholm ar POPs sy'n dod i rym ar 16 Tachwedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o'r Rheoliad POPs ac mae'n amodol ar weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Cynigir y dylid gwneud a gosod yr OS gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, gan anelu at ddyddiad cychwyn o 16 Tachwedd 2023 er mwyn bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i gynnwys y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth rhwng polisïau Llywodraeth Cymru a'r DU ar y mater hwn. Mae'r Rheoliad POPs, sy'n cael ei ddiwygio, yn Rheoliad sy’n gymwys ar draws Prydain Fawr, felly ni ellid gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo yn yr iaith Gymraeg.

Mae gwneud y diwygiadau hyn drwy OS fydd yn diwygio'r rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Yn fy marn i, nid deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**